S4C /

# S4C: ADOLYGIAD O BOLISI RHAGLENNI

Ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2025 – 31 Mawrth 2026

## Cyflwyniad

Mae S4C yn gwasanaethu cynulleidfa amrywiol drwy ddarparu cynnwys sy'n diddanu, yn cyffroi ac yn adlewyrchu Cymru gyfoes yn ei holl amrywiaeth. I gynnal hynny, mae angen sector gynhyrchu sydd wedi'i wasgaru'n ddaearyddol ar draws y wlad, ac sy'n cyflwyno syniadau gwreiddiol gyda gwerthoedd cynhyrchu sy'n cyrraedd y safon y mae cynulleidfaoedd heddiw yn ei disgwyl, beth bynnag fo'r platfform.

Yn ein Datganiad Polisi Rhaglenni ar gyfer 2025–26, addawom gomisiynu cynnwys swnllyd a phoblogaidd a fyddai'n denu cynulleidfa eang, gan gynnwys gwylwyr iau, gwylwyr ysgafnach a siaradwyr Cymraeg o gefndiroedd C2DE; a bod S4C yn parhau i fod yn gartref i chwaraeon Cymru, dramâu gafaelgar, dogfennau pwerus a chynnwys beiddgar i bobl ifanc.

Ym mis Medi 2025, hanner ffordd drwy'r cyfnod adrodd, cyhoeddwyd *Strategaeth 2030: Mwy na Sianel Deledu*, gan osod cyfeiriad clir o dan dair amcan: ehangu gwylio gyda'n cynnwys, trawsnewid yn ddigidol-yn-gyntaf, a chydweithio i weld Cymru'n ffynnu. Mae'r adolygiad hwn felly'n cwmpasu cyfnod pontio rhwng dau gyd-destun strategol, gyda'r cynnwys yn cael ei werthuso'n bennaf yn erbyn addewidion y Datganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer 2025–26.

Wrth werthuso, mae'n bwysig ystyried y llwyddiannau yn ogystal â'r meysydd lle mae lle i wella. Mewn diwydiant lle rydym yn ceisio rhagweld arferion gwylio ymhen 6–10 mis neu fwy, ac mewn tirlun darlledu sy'n parhau i newid yn gyflym, mae heriau'n anochel – ond mae gwersi gwerthfawr i'w dysgu a fydd yn cyfrannu at ein gwaith wrth symud ymlaen.

## Drama

Daeth y flwyddyn â llechen eang o ddrama, gyda llwyddiant arbennig wrth gyrraedd cynulleidfaoedd ifanc a llai rhugl.

Dychwelodd *Bariau*, gan ddenu cynulleidfa ifanc, cyfran sylweddol o ddosbarthiadau cymdeithasol C2DE, a 48% o'i gwylwyr yn llai rhugl neu yn ddi-Gymraeg, gyda chefnogaeth ymgyrch farchnata a oedd wedi'i thargedu at y gogledd. Mae'r ymateb yn cadarnhau bod y gyfres yn parhau i gwrdd â disgwyliadau'r gynulleidfa.

Yn yr hydref, rhyddhawyd *Y Golau: Dŵr* fel bocset – cyfres ddilynol i *Y Golau* ac un o'n dramâu mwyaf poblogaidd ar Clic ac iPlayer ers cychwyn ein gwasanaethau ar-alw. Cyrhaeddodd y gyfres restr fer 'Best Returning Drama' yng Ngwobrau Broadcast 2026.

Daeth *Stad* yn ôl ym mis Tachwedd, gyda chyfran iach o gartrefi cymysg eu hiaith ymhlith y gwylwyr, a chafwyd ail gyfres o *Dal y Mellt* hefyd yn ystod y flwyddyn.

Parhaodd y gwaith o adeiladu cynulleidfa ddigidol i'n dramâu sebon, gyda gwylio ar-lein *Pobol y Cwm* a *Rownd a Rownd* yn cynyddu eto eleni – a'r olaf yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed ym Medi 2025. O fis Ionawr 2026 ymlaen, dechreuwyd rhyddhau penodau ar-alw ben bore diwrnod y darllediad llinol, sef cam ymarferol cyntaf tuag at fodel digidol-yn-gyntaf ar gyfer y dramâu hyn.

Yn y maes ffilm, cafodd *Effi o Blaenau* ei dangos yng Ngŵyl Glasgow, gyda phrif adolygwr ffilm *The Guardian* yn rhoi adolygiad pedair seren iddi, a darlledwyd y ddrama opera *Tanau'r Lloer* ar yr un noson â Channel 4.

## Chwaraeon

Mae darlledu chwaraeon o bob cwr o Gymru a thu hwnt yn parhau yn un o flaenoriaethau S4C.

Yn yr haf, darlledwyd gêm agoriadol taith y Llewod yn erbyn yr Ariannin yn fyw – menter newydd i gyd-gynhyrchu gêm ryngwladol gyda'r darlledwr TG4 o'r Iwerddon, gydag S4C yn berchen ar hawliau ecsgliwsif i ddarlledu ym Mhrydain. Cyrhaeddodd y darllediad gynulleidfa gref ar draws y DU, gyda nifer y ceisiadau ar-alw ymhlith yr uchaf ar gyfer unrhyw chwaraeon byw ar S4C.

O ran rygbi rhyngwladol, sicrhawyd hawliau ecsgliwsif i gemau nos Wener yr URC am y tro cyntaf erioed – cam o bwys yn ein darpariaeth o rygbi rhanbarthol. Yn ystod gemau'r Hydref, er i'r ffigurau gwylio ostwng o gymharu â'r llynedd, fe dyfodd ffrydio yn sylweddol yn unol â'r tueddiadau mewn arferion gwylio. Sicrhawyd hefyd gytundeb pedair blynedd newydd gyda'r Chwe Gwlad o 2026 ymlaen.

Ym myd pêl-droed y dynion, mewn partneriaeth newydd gyda BBC Cymru, dilynom dîm Cymru drwy ymgyrch rowndiau rhagbrofol, gyda'r perfformiad ar S4C yn syndod o gadarn yn wyneb cystadleuaeth uniongyrchol y BBC. Ychwanegwyd i'r ddarpariaeth hon gan *Craig Bellamy: Byd y Bêl a Mi* cyn y gêm ail gyfle dyngedfennol. Ym mhêl-droed y menywod, darlledwyd holl gemau Cymru o rowndiau terfynol Ewros 2025 yn fyw o'r Swistir.

Un o'r datblygiadau newydd ar gyfer 2025–26 oedd darlledu dartiau yn fyw – penderfyniad sydd wedi profi'n llwyddiant ysgubol. Yn dilyn Cwpan Dartiau'r Chwe Gwlad o Ferthyr Tudful, manteisiwyd ar y cyfle i ddarlledu Pencampwriaeth y Byd WDF o Lakeside, gyda pherfformiad eithriadol ar YouTube ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Yn y maes ralïo, parhaom â'n strategaeth ddigidol-yn-gyntaf i ddilyn Elfyn Evans yn y WRC, gyda thwf sylweddol mewn ymgysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol o gymharu â 2024.

Darlledwyd cymal olaf Taith Prydain yn fyw o Gaerdydd ar 07 Medi 2025 – ras olaf Geraint Thomas fel seiclwr proffesiynol – ac fe ehangwyd ein harlwy hefyd gyda darllediadau bocsio.

Wrth ehangu y tu hwnt i'r prif gampau, parhaodd ein darpariaeth o ddigwyddiadau cymunedol awyr-agored – gyda Hanner Marathon Caerdydd, Marathon Eryri a Triathlon Cymru oll yn denu cyfran arbennig o uchel o wylwyr 16–44 oed. Mae hyn yn dangos sut y gall darlledu chwaraeon cyfranogol – nid yn unig chwaraeon proffesiynol – gyrraedd cynulleidfa wahanol.

## Newyddion a Materion Cyfoes

Un darn o gynnwys nodedig yn ystod 2025–26 oedd *O Brifathro i Bedoffeil: Neil Foden* – penllanw gwaith ymchwil dros ddegawd – a ddatgelodd, am y tro cyntaf, sut y caniatawyd i Foden esgyn i safle o fraint a pharch wrth guddio gwir erchylltra ei weithredoedd, gan godi

cwestiynau ehangach am atebolrwydd a goruchwyliaeth. Roedd y cynhyrchiad yn enghraifft amlwg o sut y gall newyddiaduraeth Gymraeg gystadlu â'r safonau gorau yn rhyngwladol.

Yn ychwanegol i hyn, darlledwyd *Maxine Hughes: Canser ar ba gost?*, lle defnyddiodd Maxine ei phrofiad personol ei hun o gael diagnosis canser i graffu ar safon a chysondeb gofal canser yng Nghymru.

Cafwyd hefyd *Reform UK: Tu Ôl i'r Llenni*, dogfen arsylliadol gyda mynediad digynsail i aelodau a gwirfoddolwyr y blaid yn Sir Gaerfyrddin.

Parhaodd y gwaith o gryfhau ein gwasanaeth newyddion a materion cyfoes ar lwyfannau digidol a llinol fel ei gilydd.

Bu twf clir i'n gwasanaeth Newyddion S4C Digidol, yn enwedig ar Instagram, gyda'r gynulleidfa ddigidol yn parhau i fod yn iau na'r gynulleidfa ar gyfer y rhaglenni newyddion traddodiadol ar y gwasanaeth llinol.

## Ffeithiol

Cafwyd llechen ffeithiol gref yn ystod y flwyddyn, gyda chymysgedd o ddogfennau sengl pwerus a chyfresi ymchwiliol.

Roedd *Y Crwydryn*, ein ffilm nodwedd yn dathlu canu gwlad yng Nghymru, yn un o lwyddiannau mwyaf y flwyddyn. Cafodd ei nodi'n "Pick of the Day" yn *The Observer* ac yn un o saith rhaglen orau'r wythnos yn *The Guardian*, ac fe enillodd wobr am y ddogfen orau yng Ngwobrau RTS Cymru ynghyd â chydnabyddiaeth mewn sawl gŵyl ffilm arall.

Dychwelodd *Y Llinell Las* gyda phennod arbennig "Lladron Gwartheg", a apeliodd yn arbennig at gynulleidfa C2DE a phobl lai rhugl o gartrefi cymysg eu hiaith.

Dychwelodd *Stori'r Iaith* hefyd gyda Cerys Matthews, Sarra Elgan, Ian Gwyn Hughes a Guto Harri – gan ennyn ymateb bywiog ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda chlipiau o'r gyfres yn ennill cyrhaeddiad sylweddol y tu hwnt i'r darllediad llinol.

Enillodd *Seren Jones: Yn Fyw yn y Dŵr* Wobr Cyflwynydd y Flwyddyn yng Ngwobrau RTS Cymru 2026.

Cyrhaeddodd *Y Cyfweliad* – cyfres newydd wedi'i seilio ar y fformat byd-eang *Les Rencontres du Papotin* – gynulleidfa ifanc. Derbyniodd ganmoliaeth gyson, a dwy gyfres bellach wedi'u comisiynu.

Cyhoeddwyd hefyd ddogfennau pwerus eraill: *Cariad heb Ffiniau: Poliamori a Fi*, a darodd y gynulleidfa iau ar-lein gyda chyhoeddusrwydd eang ledled Prydain; a *Fy Ffrind ar Death Row*.

Daeth *Mari Grug: Un Dydd ar y Tro* – stori bersonol y cyflwynydd yn dilyn ei diagnosis canser – yn un o'n dogfennau mwyaf poblogaidd dros yr hydref a'r gaeaf.

## Adloniant

Parhaodd *Y Llais* ymhlith ein perfformwyr cryfaf, gyda'r gyfres gyntaf yn denu cyfran nodedig iawn o wylwyr o dan 45 oed – yn unigryw ymhlith darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Yn ystod Eisteddfod yr Urdd 2025, cyhoeddwyd y byddai ail gyfres o *Y Llais*, gyda phennod gyntaf y gyfres newydd yn 2026 eisoes yn curo ffigurau'r gyfres flaenorol ar y teledu, YouTube a'r cyfryngau cymdeithasol.

Roedd *Amour a Mynydd* yn llwyddiant fel fformat wreiddiol o Gymru wnaeth gynnal ei ffresni yn ystod ei ail gyfres. Cafwyd cynnydd amlwg dros y gyfres flaenorol – o ran gwylio ac argraffiadau ar y cyfryngau cymdeithasol – ac fe gomisiynwyd trydedd gyfres cyn i'r ail ddod i ben.

Yn y maes comedi, cyflwynwyd *Ganol Nunlle*, comedi fertigol gyntaf erioed gan S4C, a newidiodd ganfyddiad gwylwyr TikTok o beth yw S4C, ynghyd â chyfres o saith comedi digidol fer i ddatblygu lleisiau newydd.

Cyrhaeddodd *Mike Bubbins: Un Mewn Miliwn* gynulleidfa arbennig o ifanc – gyda chyfran sylweddol o'r gwylwyr rhwng 16 a 44 oed, ymhlith yr uchaf o'r holl gynnwys eleni.

Daeth *Y Deis* – fformat cwis gwreiddiol Cymreig a gynhyrchwyd mewn cydweithrediad â TG4 o'r Iwerddon – yn un o gonglfeini'r amserlen llinol.

Bu digwyddiadau cenedlaethol Cymru yn rhan ganolog o'n harlwy. Daeth Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam â thwf pellach mewn gwylio digidol, gyda chynnydd sylweddol mewn oriau gwylio iPlayer ac argraffiadau ar y cyfryngau cymdeithasol o gymharu â'r flwyddyn flaenorol; cyflwynwyd pecyn dyddiol newydd o'r Ymryson y Beirdd ar-lein mewn ymateb i adborth gwylwyr. Bu Eisteddfod yr Urdd, y Sioe Frenhinol a Tafwyl hefyd yn rhan bwysig o'r darlun, gyda Tafwyl yn dystiolaeth bellach o'r awch am gerddoriaeth fyw.

## Pobl Ifanc

Yr her yn y maes hwn yw adnabod y cyfleoedd – a gwneud y mwyaf ohonynt.

Cyflwynwyd nifer o gyfresi newydd ar *Hansh* a oedd yn ymestyn ein harlwy ffurf hir: *Bar Hansh*, y gyfres realiti dramor gyntaf erioed gan *Hansh*, yn dilyn chwe Chymro ifanc yn rhedeg bar Cymraeg cyntaf Zante; *GISDA*, cyfres yn dilyn pobl ifanc yng Ngogledd Cymru sy'n cael cefnogaeth gan yr elusen; ac *Ar Led*, a oedd yn plethu adloniant â phynciau sensitif ym maes addysg rhyw.

Daeth llwyddiant rhyngwladol gyda'r ffilm fer *Teth*, a gomisiynwyd ar gyfer noson agoriadol Gŵyl Iris ac sydd wedi teithio ledled y byd ac ennill llu o wobrau rhyngwladol. Comisiynwyd hefyd *Yr Alwad* – y ddrama fertigol gyntaf gan unrhyw ddarlledwr ym Mhrydain, wedi'i chreu'n benodol ar gyfer TikTok – enghraifft glir o gomisiynu digidol ar gyfer platfform-benodol, ac o barodrwydd S4C i fentro a thorri tir newydd.

## Plant

Mae cynnwys plant S4C yn parhau i fod yr un mor bwysig ag erioed i'r brif strategaeth. Gan ein bod yn darparu 40 awr o gynnwys plant bob wythnos, ynghyd â chynnwys ar YouTube Cyw a'r platfformau plant eraill, mae yna ddewis eang i ddiddanu plant a'u teuluoedd.

Lansiwyd *Bluey* yn Nhachwedd 2025 ym Maes Awyr Caerdydd. Llwyddodd i ennill y cyrhaeddiad uchaf ymhlith ein holl gynnwys plant eleni – tystiolaeth glir bod y comisiwn wedi taro tant gyda theuluoedd.

Hefyd yn rhan o arlwy Cyw, cyflwynwyd *Help Llaw*, gyda phlant ag anghenion ac anableddau dysgu dwys yn cael bod yn sêr; a phrofodd *Parc Glan Gwil* yn llwyddiant, gyda ffigurau gwylio rhyfeddol ar iPlayer o ystyried maint y gynulleidfa darged.

Ar gyfer plant hŷn, cyhoeddwyd ail gyfres o *Y Coridor* (i wylwyr 11+), gyda ffigurau gwylio iach iawn ar y llwyfannau digidol ac ymateb cryf gan ysgolion sy'n dysgu Cymraeg ail iaith.

Daeth y ddrama *Hafiach* i'r sgrin yn yr haf, wedi'i lleoli yn y Rhyl ac wedi'i chreu ar gyfer pobl ifanc 13 oed a hŷn. Mae'r gyfres eisoes wedi'i mabwysiadu gan ysgolion uwchradd fel testun lefel A ail iaith ac wedi cyrraedd rhestr fer *C21 International Drama Awards*.

Parhaodd poblogrwydd *Tekkers* gyda phlant, gyda phob ysgol gynradd Gymraeg yng Nghymru wedi gofyn i fod yn rhan o'r gyfres, ac mae TG4 bellach wedi prynu'r fformat.

Yn y maes animeiddio, comisiynwyd *Egin Bach*, animeiddiad Cymraeg gwreiddiol newydd, fel cam tuag at adeiladu eiddo deallusol cynhenid. Cafwyd animeiddiadau arbennig ar gyfer y Nadolig, gan gynnwys y cyd-gynhyrchiad *Nolig* (S4C, TG4 a BBC NI), a'r ffilmiau *Shrek the Halls* a *Puss in Boots*.